# ATODLEN 1

Erthyglau 8 a 28

## [F1]Cydnabod Cais

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atod. 1: yn y Cydnabod Cais mae'r geiriau "Os byddwch yn apelio, rhaid ichi apelio o fewn y cyfnod o 6 mis" hyd at "("y dyddiad perthnasol")]………." wedi eu hepgor (22.6.2015) yn rhinwedd gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/1330). erglau. 1(1), 11(1) (gyda ergl. 12)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

Llythyr sydd i'w anfon gan awdurdod cynllunio lleol pan geir cais am ganiatâd cynllunio neu am dystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad.

Diolch ichi am eich cais dyddiedig……………………………………… a dderbyniais ar ……………………………………………………………

Rwy'n parhau i astudio'ch ffurflen gais a'r planiau a dogfennau a ddaeth gyda hi, er mwyn gweld a ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith.*

Os byddaf yn canfod bod eich cais yn annilys oherwydd nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion statudol, byddaf yn ysgrifennu atoch eto cyn gynted ag y gallaf.*

Os, erbyn (*mewnosoder dyddiad diwedd y cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cafwyd y cais*)....................................................................................................

na fyddwch wedi cael penderfyniad mewn ysgrifen ac:

— na ddywedwyd wrthych fod eich cais yn annilys; neu

— na ddywedwyd wrthych fod eich siec am y ffi wedi ei dychwelyd heb ei thalu; neu

— nad ydych wedi cytuno mewn ysgrifen i estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer rhoi penderfyniad,

yna, cewch apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 78/ adran 195* o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. (Nid yw hyn yn gymwys os yw eich cais wedi ei atgyfeirio eisoes at Weinidogion Cymru.)

Er mwyn apelio, rhaid ichi ddefnyddio ffurflen y gellwch ei chael ar-lein yn www.planningportal.gov.uk/pcs neu gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ*.

Os byddwch yn apelio, rhaid ichi apelio o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n dilyn [mewnosoder y dyddiad ar ddiwedd cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cafwyd y cais ("y dyddiad perthnasol")] ………………..

*dilëer os nad yw'n briodol

## [F2 ATODLEN 1A

Erthygl 2(1)

### Defnydd Datblygiad Masnachol Bach

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Atod. 1A wedi ei fewnosod (22.6.2015) gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/1330), ergl. 1(1), **Atod.** (ynghyd ag ergl. 12)

**Siopau**

**1.** Defnydd ar gyfer pob un o'r dibenion canlynol neu unrhyw un neu ragor ohonynt—

(a) ar gyfer manwerthu nwyddau ac eithrio bwyd poeth,

(b) fel swyddfa bost,

(c) ar gyfer gwerthu tocynnau neu fel asiantaeth deithio,

(ch) ar gyfer gwerthu brechdanau neu fwyd oer arall i'w fwyta i ffwrdd o'r fangre,

(d) ar gyfer trin gwallt,

(dd) ar gyfer trefnu angladdau,

(e) ar gyfer arddangos nwyddau sydd ar werth,

(f) ar gyfer hurio nwyddau neu eitemau domestig neu bersonol,

(ff) ar gyfer golchi neu lanhau dillad neu ffabrigau yn y fangre,

(g) ar gyfer derbyn nwyddau i'w golchi, eu glanhau neu eu hatgyweirio,

pan fo'r gwerthu, yr arddangos neu'r gwasanaeth i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.

**Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol**

**2.** Defnydd ar gyfer darparu—

(a) gwasanaethau ariannol,

(b) gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd neu feddygol), neu

(c) unrhyw wasanaethau eraill (gan gynnwys defnydd fel swyddfa fetio) y mae'n briodol eu darparu mewn ardal siopa,

pan ddarperir y gwasanaethau yn bennaf i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.

**Bwyd a diod**

**3.** Defnydd ar gyfer gwerthu bwyd neu ddiod ar gyfer ei fwyta neu ei yfed yn y fangre neu fwyd poeth ar gyfer ei fwyta i ffwrdd o'r fangre.**]**

## [F3 ATODLEN 1B

Erthyglau 2C a 2D

## CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Atod. 1B, Atod. 1C wedi ei fewnosod (16.3.2016) gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/59), ergl. 1(2), **Atod. 1** (ynghyd ag ergl. 15(1))

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 10 O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

(i'w gyflwyno i berchennog* neu denant** neu i'w gyhoeddi mewn papur newydd, (ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, ar wefan yr awdurdod))

Datblygiad arfaethedig yn (a)....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b).............................................................

yn gwneud cais i (c)............................................[yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+

am ganiatâd cynllunio i (ch).....................................................

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)....................................................................................

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)..............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at [yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+ yn (d)...........................................

erbyn (dd)........................................................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol sydd â'i dymor gweddilliol yn ddim llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys ennill neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (ac eithrio olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant amaethyddol, fel y diffinnir "agricultural tenant" yn adran 65(8) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o dir y mae unrhyw ran ohono'n gynwysedig yn y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Llofnodwyd...............................................

+ Ar ran.....................................

Dyddiad.................................................

*Datganiad o hawliau perchnogion*

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu gael gwared â'u heiddo onid oes rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn les.

*Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol*

Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol, gallai hynny effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol, os yw'n briodol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, neu 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (yn ôl fel y digwydd)

(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

## ATODLEN 1C

Erthygl 2D]

## YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 10(2) O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER ENNILL A GWEITHIO MWYNAU DRWY WEITHREDIADAU TANDDAEAROL

(i'w arddangos mewn achos pan wneir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys ennill a gweithio mwynau drwy weithrediadau tanddaearol (yn ychwanegol at gyflwyno neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau gofynnol eraill sydd yn yr Atodlen hon))

Datblygiad arfaethedig yn (a).....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b)..............................................................

yn gwneud cais i (c)..............................................[yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+

am ganiatâd cynllunio i (ch)......................................................

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d).................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)...............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at [yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+ yn (f).............................................

erbyn (dd)..........................................................................................

Llofnodwyd................................................

+ Ar ran......................................

Dyddiad..................................................

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
(b) enw'r ceisydd
(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol, os yw'n briodol
(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais (y ceisydd sy'n gyfrifol am roi'r cais ar gael i'w archwilio o fewn ardal yr awdurdod cynllunio lleol)
(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad arddangos yr hysbysiad
(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol
(f) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol

## ATODLEN 2

Erthyglau 10 a 25

### [F4F5]Hysbysiadau o dan Erthyglau 10 a 25

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Geiriau yn Atod. 2 a fewnosodwyd cyn y diffiniad o "perchennog" yn yr Hysbysiad o dan Erthygl 10 o Gais am Ganiatâd Cynllunio (22.6.2015) gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/1330), erglau. 1(1), **11(3)(a)** (gyda ergl. 12)

**F5** Geiriau yn Atod. 2 a fewnosodwyd cyn y diffiniad o "perchennog" yn yr Hysbysiad Apêl o dan Erthyglau 10 a 25 (22.6.2015) gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/1330), erglau. 1(1), **11(3)(b)** (gydag ergl. 12)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 2 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 10 O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

(i'w gyflwyno i berchennog* neu denant** neu i'w gyhoeddi mewn papur newydd, (ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, ar wefan yr awdurdod))

Datblygiad arfaethedig yn (a)....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b)..............................................................

yn gwneud cais i (c).............................................[yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+

am ganiatâd cynllunio i (ch).....................................................

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)..............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at [yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+ yn (d)............................................

erbyn (dd)..........................................................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol sydd â'i dymor gweddilliol yn ddim llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys ennill neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (ac eithrio olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant amaethyddol, fel y diffinnir "agricultural tenant" yn adran 65(8) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o dir y mae unrhyw ran ohono'n gynwysedig yn y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Llofnodwyd................................................

+ Ar ran......................................

Dyddiad.................................................

*Datganiad o hawliau perchnogion*

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu gael gwared â'u heiddo onid oes rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn les.

*Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol*

Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol, gallai hynny effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol, os yw'n briodol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, neu 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (yn ôl fel y digwydd)

(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 10(2) O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER ENNILL A GWEITHIO MWYNAU DRWY WEITHREDIADAU TANDDAEAROL

(i'w arddangos mewn achos pan wneir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys ennill a gweithio mwynau drwy weithrediadau tanddaearol (yn ychwanegol at gyflwyno neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau gofynnol eraill sydd yn yr Atodlen hon))

Datblygiad arfaethedig yn (a)....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b).............................................................

yn gwneud cais i (c).............................................[yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+

am ganiatâd cynllunio i (ch).....................................................

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)...............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at [yr Awdurdod Cynllunio Lleol] [Gweinidogion Cymru]+ yn (f)............................................

erbyn (dd)..........................................................................................

Llofnodwyd................................................

+ Ar ran......................................

Dyddiad..................................................

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol, os yw'n briodol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais (y ceisydd sy'n gyfrifol am roi'r cais ar gael i'w archwilio o fewn ardal yr awdurdod cynllunio lleol)

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad arddangos yr hysbysiad

(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

(f) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O APÊL O DAN ERTHYGLAU 10 A 25

(i'w gyflwyno i berchennog* neu denant** neu i'w gyhoeddi mewn papur newydd, (ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, ar wefan yr awdurdod))

Datblygiad arfaethedig yn (a).....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b).....................................................................

ar ôl gwneud cais i Awdurdod Cynllunio Lleol (c)....................................................

ar gyfer (ch)................................................................................................

yn apelio i Weinidogion Cymru

yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol +

yn dilyn methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi hysbysiad o benderfyniad +

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)..................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)...............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch yr apêl hon ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu ddefnyddio'r wefan yn www.planningportal.gov.uk/pcs

erbyn (dd)...............................................................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol sydd â'i dymor gweddilliol yn ddim llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys ennill neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (ac eithrio olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant amaethyddol, fel y diffinnir "agricultural tenant" yn adran 65(8) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o dir y mae unrhyw ran ohono'n gynwysedig yn y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Llofnodwyd................................................

+ Ar ran......................................

Dyddiad..................................................

*Datganiad o hawliau perchnogion*

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu gael gwared â'u heiddo onid oes rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn les.

*Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol*

Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol, gallai hynny effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, neu 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (yn ôl fel y digwydd)

(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O APÊL O DAN ERTHYGL 25

(i'w arddangos mewn achos pan wneir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys ennill a gweithio mwynau drwy weithrediadau tanddaearol (yn ychwanegol at gyflwyno neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau gofynnol eraill sydd yn yr Atodlen hon))

Datblygiad arfaethedig yn (a)....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b)....................................................................

ar ôl gwneud cais i Awdurdod Cynllunio Lleol (c)...................................................

ar gyfer (ch)..............................................................................................

yn apelio i Weinidogion Cymru

yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol +

yn dilyn methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi hysbysiad o benderfyniad +

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)...............................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)..............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch yr apêl hon ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu ar-lein yn www.planningportal.gov.uk/pcs

erbyn (dd)..............................................................................................

Llofnodwyd...............................................

+ Ar ran.....................................

Dyddiad.................................................

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
(b) enw'r ceisydd
(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol
(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
(d) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol
(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad arddangos yr hysbysiad
(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

## ATODLEN 3

Erthygl 12

### [F6]Cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio

**Diwygiadau Testunol**

**F6** Atod. 3: gair ", 12(4A)" wedi ei mewnosod ar ol "12(4)" (16.3.2016) gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/59), erglau. 1(2), **10(8)** (gyda ergl. 15(3))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 3 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 12(4) NEU (5) O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

(i'w arddangos ar neu gerllaw'r safle, neu i'w gyflwyno i berchnogion a/neu feddianwyr tir cyffiniol; ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, i'w gyhoeddi ar wefan yr awdurdod; a phan fo'n ofynnol, i'w gyhoeddi mewn papur newydd)

Datblygiad arfaethedig yn (a).....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b)...............................................................

yn gwneud cais i Awdurdod Cynllunio Lleol (c)..............................................

am ganiatâd cynllunio i (ch)......................................................

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)...............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn (f)................................................................................................

erbyn (dd)..........................................................................................

Llofnodwyd………………………………………….…...(swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol)

Ar ran Awdurdod Cynllunio Lleol................................

Dyddiad....................................................

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad arddangos yr hysbysiad am y tro cyntaf ar neu gerllaw'r safle neu y'i cyflwynir i berchennog a/neu feddiannydd tir cyffiniol, neu gyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd (yn ôl fel y digwydd)

(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

(f) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 12(3) O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

(i'w gyhoeddi mewn papur newydd, (ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, ar wefan yr awdurdod) ac i'w arddangos ar neu gerllaw'r safle)

Datblygiad arfaethedig yn (a).....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b).............................................................

yn gwneud cais i Awdurdod Cynllunio Lleol (c).............................................

am ganiatâd cynllunio i (ch)......................................................

Cyflwynwyd y cais ynghyd â datganiad amgylcheddol.*

Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cydweddu â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle mae'r tir yr ymwneir ag ef yn y cais.*

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar hawl tramwy y mae Rhan 3 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn gymwys iddi.*

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— y datganiad amgylcheddol*

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)...............................................

Gall aelodau'r cyhoedd gael copïau o'r datganiad amgylcheddol o (e)*………........................................................................

cyhyd â bo'r stociau'n parhau, am dâl o (f).......................................

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn (ff)................................................................................................

erbyn (dd).........................................................................................

Llofnodwyd…………………………………………..(swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol)

Ar ran Awdurdod Cynllunio Lleol................................

Dyddiad....................................................

* dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad arddangos yr hysbysiad am y tro cyntaf ar neu gerllaw'r safle, neu gyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd (yn ôl fel y digwydd)

(e) y cyfeiriad lle y gellir cael copïau o'r datganiad amgylcheddol (boed yr un cyfeiriad â (d) ai peidio)

(f) swm y tâl, os codir tâl

(ff) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol

## [F7 ATODLEN 4

Erthyglau 14 a 15

### Ymgyngoriadau cyn Rhoi Caniatâd

**Diwygiadau Testunol**

F7 Atod. 4 wedi ei amnewid (16.3.2016) gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/59), ergl. 1(2), **Atod. 2**

**Gwybodaeth Cychwyn**

I4 Atod. 4 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

**TABL**

| *Paragraff* | *Disgrifiad o'r Datblygiad* | *Ymgynghorai* |
|---|---|---|
| (a) | Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar dir yn ardal awdurdod cynllunio lleol arall | Yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol |
| (b) | Datblygiad y gwnaed cais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas ag ef i Weinidogion Cymru o dan adran 293A o Ddeddf 1990 (datblygiad brys y Goron: gwneud cais), pan fo'r datblygiad hwnnw'n debygol o effeithio ar dir yn ardal cyngor cymuned | Y cyngor cymuned |
| (c) | Datblygiad o fewn ardal yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei chylch gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at ddibenion y ddarpariaeth hon oherwydd bod sylweddau gwenwynig, tra adweithiol, ffrwydrol neu fflamadwy yn bresennol yn y cyffiniau (ac eithrio ar safle niwclear perthnasol), a'r datblygiad yn cynnwys darparu—<br><br>(i) llety preswyl;<br><br>(ii) mwy na 250metr sgwâro arwynebedd llawr manwerthu; | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |

| *Paragraff* | *Disgrifiad o'r Datblygiad* | *Ymgynghorai* |
|---|---|---|
| | (iii) mwy na 500 metr sgwâro arwynebedd llawr swyddfa; neu<br><br>(iv) mwy na 750 metr sgwâro arwynebedd llawr sydd i'w ddefnyddio ar gyfer proses ddiwydiannol,<br><br>neu rywfodd arall yn debygol o achosi cynnydd sylweddol yn nifer y personau sy'n gweithio o fewn yr ardal yr hysbyswyd yn ei chylch, neu sy'n ymweld â'r ardal honno. | |
| (d) | Datblygiad o fewn ardal yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei chylch gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear at ddibenion y ddarpariaeth hon oherwydd bod sylweddau gwenwynig, tra adweithiol, ffrwydrol neu fflamadwy yn bresennol yn y cyffiniau ar safle niwclear perthnasol, a'r datblygiad yn cynnwys darparu—<br><br>(i) llety preswyl;<br><br>(ii) mwy na 250 metr sgwâro arwynebedd llawr manwerthu;<br><br>(iii) mwy na 500 metr sgwâro arwynebedd llawr swyddfa; neu<br><br>(iv) mwy na 750 metr sgwâro arwynebedd llawr sydd i'w ddefnyddio ar gyfer proses ddiwydiannol,<br><br>neu rywfodd arall yn debygol o achosi cynnydd sylweddol yn nifer y personau sy'n gweithio o fewn yr ardal yr hysbyswyd yn ei chylch, neu sy'n ymweld â'r ardal honno. | Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear |
| (e) | Datblygiad sy'n debygol o achosi cynnydd sylweddol ym maint y traffig, neu newid sylweddol yng nghymeriad y traffig—<br><br>(i) sy'n ymuno neu'n ymadael â chefnffordd; neu<br><br>(ii) yn defnyddio croesfan dros reilffordd | <br><br><br>Gweinidogion Cymru<br><br>Gweithredwr y rhwydwaith sy'n cynnwys y rheilffordd o dan sylw, a Gweinidogion Cymru |
| (f) | Datblygiad sy'n debygol o achosi cynnydd sylweddol ym maint y traffig, neu newid sylweddol yng nghymeriad y traffig sy'n ymuno neu'n ymadael â ffordd ddosbarthiadol neu briffordd arfaethedig | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol |
| (g) | Datblygiad sy'n debygol o amharu ar wella neu adeiladu ffordd ddosbarthiadol neu briffordd arfaethedig | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol |

| *Paragraff* | *Disgrifiad o'r Datblygiad* | *Ymgynghorai* |
|---|---|---|
| (h) | Datblygiad sy'n ymwneud â— | |
| | (i) ffurfio, gosod neu addasu unrhyw fynedfa i briffordd (ac eithrio cefnffordd); neu | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol |
| | (ii) adeiladu priffordd neu fynedfa breifat i fangre, sy'n darparu mynediad i ffordd sydd â gorchymyn tollau mewn grym arni. | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol, ac yn achos ffordd sy'n ddarostyngedig i gonsesiwn, y consesiynydd |
| (i) | Datblygiad sydd at y diben o osod neu adeiladu stryd newydd neu sy'n cynnwys gwaith o'r fath | Yr awdurdod priffyrdd lleol |
| (j) | Datblygiad, ac eithrio datblygiad gan ddeiliad tŷ, o fewn ardal yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei chylch gan yr Awdurdod Glo at ddiben y ddarpariaeth hon, oherwydd y risg o ansefydlogrwydd a achosir gan fwyngloddio. | Yr Awdurdod Glo |
| (k) | Datblygiad sy'n ymwneud â, neu'n cynnwys, gweithrediadau mwyngloddio | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (l) | (i) Datblygiad sy'n cael effaith ffisegol uniongyrchol ar heneb gofrestredig.<br><br>(ii) Datblygiad sy'n debygol o fod yn weladwy o heneb gofrestredig ac sy'n bodloni un o'r criteria canlynol—<br><br>a) bod o fewn pellter o 0.5 cilometr o unrhyw bwynt ar berimedr heneb gofrestredig;<br><br>b) bod o fewn pellter o 1 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 15 metr o uchder neu'n uwch, neu gydag arwynebedd o 0.2 hectar neu fwy;<br><br>c) bod o fewn pellter o 2 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 50 metr o uchder neu'n uwch, neu gydag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy;<br><br>d) bod o fewn pellter o 3 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 75 metr o uchder neu'n uwch, neu gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy; neu<br><br>e) bod o fewn pellter o 5 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 100 metr o uchder neu'n uwch, neu gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.<br><br>(iii) Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar barc hanesyddol cofrestredig neu ardd hanesyddol gofrestredig neu leoliad parc neu ardd o'r fath; | Gweinidogion Cymru |

| *Paragraff* | *Disgrifiad o'r Datblygiad* | *Ymgynghorai* |
|---|---|---|
| | (iv) Datblygiad o fewn tirwedd hanesyddol gofrestredig pan fo Asesiad Effaith Amgylcheddol yn ofynnol; neu<br><br>(v) Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar werth cyffredinol eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. | |
| (m) | Datblygiad sy'n ymwneud â chyflawni gwaith neu weithrediadau ar wely neu ar lannau afon neu ffrwd | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (n) | Datblygiad at y diben o buro neu storio olewau mwynol a'u deilliadau | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (o) | Datblygiad sy'n ymwneud â chadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnachol, slyri neu slwtsh (ac eithrio gosod carthffosydd, adeiladu tai pwmpio mewn llinell o garthffosydd, adeiladu tanciau carthion neu garthbyllau sy'n gwasanaethu tai annedd sengl neu garafanau sengl neu adeiladau sengl lle na fydd mwy na deg o bobl fel arfer yn preswylio, gweithio neu ymgynnull, a gwaith sy'n ategol i hynny) | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (p) | Datblygiad sy'n ymwneud â defnyddio tir fel mynwent | Corff Adnoddau Naturiol Cymru<br><br>Yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth perthnasol |
| (q) | Datblygiad sydd—<br><br>(i) mewn neu'n debygol o effeithio ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; neu<br><br>(ii) mewn ardal yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei chylch gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ac sydd o fewn dau gilometr i safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig y rhoddwyd hysbysiad ohoni, neu sy'n cael effaith fel pe bai hysbysiad ohoni wedi ei roi i'r awdurdod cynllunio lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, yn unol ag adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig) fel y'i cymhwysir yng Nghymru gan adran 27AA o'r Ddeddf honno | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (r) | Datblygiad sy'n ymwneud ag—<br><br>(i) unrhyw dir sydd â theatr arno;<br><br>(ii) datblygiad preswyl (ac eithrio datblygiad gan ddeiliad tŷ) o fewn 50 metr i theatr (nad yw'n dod o fewn paragraff (i)); neu<br><br>(iii) theatr arfaethedig. | Yr Ymddiriedolaeth Theatrau |

| *Paragraff* | *Disgrifiad o'r Datblygiad* | *Ymgynghorai* |
|---|---|---|
| (s) | Datblygiad nad yw at ddibenion amaethyddol, nad yw'n unol â darpariaethau cynllun datblygu, ac sy'n golygu—<br><br>(i) colli dim llai nag 20 hectar o dir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a a ddefnyddir ar y pryd (neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf) at ddibenion amaethyddol; neu<br><br>(ii) colli llai nag 20 hectar o dir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a a ddefnyddir ar y pryd (neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf) at ddibenion amaethyddol, mewn amgylchiadau pan fo'r datblygiad yn debygol o arwain at golled bellach o dir amaethyddol a fyddai'n peri bod y golled gronnus o dir amaethyddol yn 20 hectar neu'n fwy. | Gweinidogion Cymru |
| (t) | Datblygiad sydd o fewn 250 metr i dir—<br><br>(i) a ddefnyddir, neu sydd wedi ei ddefnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 30 mlynedd cyn y cais perthnasol, ar gyfer dyddodi sbwriel neu wastraff ; a<br><br>(ii) yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru yn ei gylch gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddibenion y ddarpariaeth hon | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (u) | Datblygiad—<br><br>(i) sy'n debygol o amharu ar ddefnyddio tir, neu arwain at golli'r defnydd o dir, a ddefnyddir fel maes chwarae; neu<br><br>(ii) sydd ar dir—<br><br>(aa) a ddefnyddiwyd fel maes chwarae ar unrhyw adeg yn ystod y 5 mlynedd cyn gwneud y cais perthnasol ac sy'n parhau heb ei ddatblygu; neu<br><br>(bb) a ddyrannwyd ar gyfer ei ddefnyddio fel maes chwarae mewn cynllun datblygu neu mewn cynigion ar gyfer cynllun o'r fath neu ar gyfer ei addasu neu ei amnewid; neu<br><br>(iii) sy'n golygu gosod arwyneb artiffisial, arwyneb o wneuthuriad dynol neu arwyneb cyfansawdd ar lain chwarae yn lle arwyneb o laswellt | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| (v) | Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar— | The Canal and River Trust |

| *Paragraff* | *Disgrifiad o'r Datblygiad* | *Ymgynghorai* |
|---|---|---|
| | (i) unrhyw ddyfrfffordd fewndirol (boed naturiol neu artiffisial) neu gronfa ddŵr sy'n eiddo i'r Canal and River Trust neu a reolir ganddi; neu<br><br>(ii) unrhyw sianel gyflenwi, cwrs dŵr, dihangfa dŵr neu gwlfert ar gyfer camlas, sydd o fewn ardal yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei chylch at ddibenion y ddarpariaeth hon gan y Canal and River Trust. | |
| (w) | Datblygiad—<br><br>(i) sy'n ymwneud â lleoli sefydliadau newydd;<br><br>(ii) sydd at y diben o addasu sefydliadau presennol sydd o fewn cwmpas Erthygl 11 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU; neu<br><br>(iii) sydd yn newydd, gan gynnwys llwybrau trafnidiaeth, lleoliadau a ddefnyddir gan y cyhoedd ac ardaloedd preswyl yng nghyffiniau sefydliadau presennol, lle y gallai lleoli neu ddatblygu achosi neu gynyddu'r risg o ddamwain fawr, neu ychwanegu at ganlyniadau damwain fawr. | Yr awdurdod cymwys rheoli peryglon damweiniau mawr, ac mewn perthynas â datblygiad sy'n dod o fewn paragraff (iii), unrhyw berson sydd â rheolaeth o'r tir y lleolir arno unrhyw sefydliad presennol o dan sylw, yn ôl y gofrestr a gedwir gan yr awdurdod sylweddau peryglus o dan reoliad 22 o Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 |
| (x) | Datblygiad—<br><br>(i) ar dir a ddynodwyd yn Barth Llifogydd C2;<br><br>(ii) sy'n ymwneud â, neu sy'n cynnwys, datblygiad gwasanaethau brys neu ddatblygiad a all fod mewn perygl mawr, ar dir a ddynodwyd yn Barth Llifogydd C1 neu ar dir yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei gylch gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddiben y ddarpariaeth hon. | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |
| (y) | Datblygiad—<br><br>(i) sy'n ymwneud â datblygiad preswyl newydd (gan gynnwys unedau sengl); a<br><br>(ii) sy'n ddatblygiad mawr nad yw'n dod o fewn paragraff (i). | Yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth perthnasol |

**Dehongli'r Tabl**

Yn y Tabl uchod—

(a) ym mharagraffau (c)(iv) a (d)(iv), ystyr "proses ddiwydiannol" ("*industrial process*") yw proses sydd ar gyfer neu sy'n ategu unrhyw un o'r dibenion canlynol—

(i) gwneud unrhyw wrthrych neu ran o unrhyw wrthrych (gan gynnwys llong neu gwch, neu ffilm, fideo neu recordiad sain);

(ii) newid, atgyweirio, cynnal, addurno, gorffen, glanhau, golchi, pacio, canio, addasu ar gyfer gwerthu, datgymalu neu ddymchwel unrhyw wrthrych; neu

(iii) cael, naddu neu drin mwynau yng nghwrs unrhyw fasnach neu fusnes ac eithrio amaethyddiaeth, a chan eithrio proses a gyflawnir ar dir a ddefnyddir fel mwynglawdd, neu sy'n cydffinio ac yn cael ei feddiannu ar y cyd â mwynglawdd (ac yn yr is-baragraff hwn, ystyr "mwynglawdd" ("*mine*") yw unrhyw safle y cyflawnir gweithrediadau mwyngloddio ynddo);

(b) ym mharagraffau (c) a (d) ystyr "safle niwclear perthnasol" ("*relevant nuclear site*") yw safle sydd yn —

(i) safle niwclear Prydain Fawr (o fewn yr ystyr a roddir i "GB nuclear site" gan adran 68 o Ddeddf Ynni 2013) ;

(ii) safle amddiffyn awdurdodedig ( yn yr ystyr a roddir i "authorised defence site" gan reoliad 2(1) o Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi)1998); neu

(iii) safle niwclear newydd-adeiledig (yn yr ystyr a roddir i "new nuclear build site" gan reoliad 2A(1) o'r Rheoliadau hynny).

(c) ym mharagraff (e), mae i "rhwydwaith" a "gweithredwr", yn eu trefn, yr ystyron a roddir i "network" ac i "operator" yn adran 83(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 (darparu gwasanaethau rheilffordd);

(d) ym mharagraffau (f) ac (g), ystyr "ffordd ddosbarthiadol" ("*classified road*") yw priffordd neu briffordd arfaethedig sydd—

(i) yn ffordd ddosbarthiadol neu'n brif ffordd yn yr ystyron, yn eu trefn, o "classified road" neu "principal road" at ddibenion adran 12(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 (darpariaeth gyffredinol o ran prif ffyrdd a ffyrdd dosbarthiadol); neu

(ii) yn ddosbarthiadol at ddibenion unrhyw ddeddfiad gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 12(3) o'r Ddeddf honno;

(e) ym mharagraff (h), mae i "consesiynydd", "ffordd sy'n ddarostyngedig i gonsesiwn" a "gorchymyn tollau", yn eu trefn, yr ystyron a roddir i "concessionaire", "road subject to a concession" a "toll order" yn Rhan I o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (ffyrdd newydd yng Nghymru a Lloegr);

(f) ym mharagraff (i), mae i "stryd" yr ystyr a roddir i "street" yn adran 48(1 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (strydoedd, gwaith stryd ac ymgymerwyr), ac mae "stryd newydd" ("*new street*") yn cynnwys estyniad o stryd bresennol;

(g) ym mharagraff (j), ystyr "datblygiad gan ddeiliad tŷ" ("*householder development*") yw—

(i) ehangu neu wella tŷ annedd neu ei addasu rywfodd arall, neu ddatblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd o'r fath, neu

(ii) newid defnydd er mwyn ehangu cwrtil tŷ annedd,

at unrhyw ddiben sy'n ategol i fwynhad o'r tŷ annedd, ond nid yw'n cynnwys—

(aa) unrhyw newid defnydd arall,

(bb) codi tŷ annedd, neu

(cc) newid nifer yr anheddau mewn adeilad;

(h) ym mharagraff (l)—

(i) mae i "heneb gofrestredig" yr ystyr a roddir i "scheduled monument" yn adran 1(11) o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 (rhestr o henebion);

(ii) rhaid dehongli cyfeiriad at uchder datblygiad fel cyfeiriad at ei uchder a fesurir o lefel y ddaear; ac at ddibenion y paragraff hwn ystyr "lefel y ddaear" ("*ground level*")

yw lefel arwyneb y ddaear yn union gerllaw'r datblygiad o dan sylw neu, os nad yw lefel arwyneb y ddaear y lleolir y datblygiad arno, neu y bwriedir ei leoli arno, yn wastad, lefel y rhan uchaf o arwyneb y ddaear yn union gerllaw'r datblygiad;

(iii) mae "parc hanesyddol cofrestredig neu ardd hanesyddol gofrestredig" ("*registered historic park or garden*") a "tirwedd hanesyddol gofrestredig" ("*registered historic landscape*") yn golygu bod y parc, yr ardd neu'r dirwedd yn gynwysedig yn y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru a gynhelir gan Weinidogion Cymru;

(iv) ystyr "Safle Treftadaeth y Byd" ("*World Heritage Site*") yw tir sy'n ymddangos ar Restr Treftadaeth y Byd a gedwir o dan erthygl 11(2) o Gonfensiwn UNESCO ar Amddiffyn Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd, a fabwysiadwyd ym Mharis ar 16 Tachwedd 1972;

(i) ym mharagraff (o)—

(i) ystyr "slyri" ("slurry") yw carthion a throeth anifeiliaid (pa un a ychwanegwyd dŵr ai peidio ar gyfer ei drin), a

(ii) mae i "carafán" yr ystyr a roddir i "caravan" gan adran 29(1) o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 (safleoedd carafanau);

(j) ym mharagraff (q), ystyr "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" ("*site of special scientific interest*") yw tir y mae adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig) y gymwys iddo;

(k) ym mharagraff (r), mae i "theatr" yr ystyr a roddir i "theatre" yn adran 5 o Ddeddf Ymddiriedolaeth Theatrau 1976 (dehongli) a mae i "datblygiad gan ddeiliad tŷ" ("*householder development*") yr un ystyr ag ym mharagraff (j);

(l) ym mharagraff (u)—

(i) ystyr "maes chwarae" ("*playing field*") yw'r cyfan o safle sy'n cynnwys o leiaf un llain chwarae;

(ii) ystyr "llain chwarae" ("playing pitch") yw arwynebedd wedi ei amlinellu yn benodol sydd, ynghyd ag unrhyw arwynebedd ymylol, yn 0.2 hectar neu'n fwy, ac a ddefnyddir ar gyfer pêl-droed y gymdeithas, pêl-droed Americanaidd, rygbi, criced, hoci, lacrós, rownderi, pêl fas, pêl feddal, pêl-droed Awstralaidd, pêl-droed Gwyddelig, bando, hyrli, polo neu polo beic;

(m) ym mharagraff (w)—

(i) mae i'r ymadroddion sy'n ymddangos yn y paragraff hwnnw ac y mae eu cyfystyron Saesneg yn ymddangos yng Nghyfarwyddeb 2012/18/EU yr un ystyron ag y sydd i'r cyfystyron Saesneg hynny yn y Gyfarwyddeb honno; a

(ii) ystyr "awdurdod cymwys rheoli peryglon damweiniau mawr" ("*control of major accident hazards competent authority")* yw—

(aa) mewn perthynas â safle niwclear perthnasol, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, yn gweithredu ar y cyd;

(bb) fel arall, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, yn gweithredu ar y cyd; ac

(n) ym mharagraff (x)—

ystyr "Parth Llifogydd C2" ("*Flood Zone C2*") yw ardal o'r orlifdir sydd heb seilwaith arwyddocaol i'w amddiffyn rhag llifogydd;

ystyr "Parth Llifogydd C1" ("*Flood Zone C1*") yw ardal o orlifdir sydd wedi ei datblygu ac a wasanaethir gan seilwaith arwyddocaol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd; ac

mae i "datblygiad gwasanaethau brys" ("*emergency services development*") a "datblygiad a all fod mewn perygl mawr" ("*highly vulnerable development*") yr un ystyron ag yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012**]**

## ATODLEN 5

Erthygl 24

Hysbysiad pan wrthodir caniatâd cynllunio neu pan roddir caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 5 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

Hysbysiad sydd i'w anfon at geisydd pan fo awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod caniatâd cynllunio neu'n rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau (sydd i'w harnodi ar hysbysiadau o benderfyniad)

**Apelau i Weinidogion Cymru**

— Os ydych wedi eich tramgwyddo gan benderfyniad eich awdurdod cynllunio lleol i wrthod caniatâd ar gyfer y datblygiad arfaethedig neu i roi'r caniatâd yn ddarostyngedig i amodau, yna gellwch apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

— Os ydych am apelio yn erbyn penderfyniad eich awdurdod cynllunio lleol, rhaid ichi wneud hynny o fewn cyfnod o 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

— Rhaid gwneud apelau drwy ddefnyddio ffurflen y gellwch ei chael gan Weinidogion Cymru, yn yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu ar-lein yn www.planningportal.gov.uk/pcs

— Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu cyfnod hwy ar gyfer rhoi hysbysiad o apêl, ond fel rheol, nid ydynt yn fodlon defnyddio'r pŵer hwnnw ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig sy'n esgusodi'r oedi cyn rhoi hysbysiad o apêl.

— Nid oes raid i Weinidogion Cymru ystyried apêl os yw'n ymddangos iddynt na fyddai wedi bod yn bosibl i'r awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig, neu na fyddai wedi bod yn bosibl iddo ei roi heb yr amodau a osodwyd, o ystyried y gofynion statudol, darpariaethau unrhyw orchymyn datblygu ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd o dan orchymyn datblygu.

— Yn ymarferol, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwrthod ystyried apelau oherwydd, yn unig, fod yr awdurdod cynllunio lleol wedi seilio ei benderfyniad ar gyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

**Hysbysiadau Prynu**

— Os yw naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru wedi gwrthod caniatâd i ddatblygu tir, neu wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau, caiff y perchennog hawlio nad oes modd i'r perchennog ddefnyddio'r tir yn ei gyflwr presennol mewn ffordd sy'n rhesymol fuddiol, nac ychwaith roi'r tir mewn cyflwr a fyddai'n galluogi ei ddefnyddio mewn ffordd resymol fuddiol, drwy gyflawni unrhyw ddatblygiad sydd wedi ei ganiatáu neu y byddid yn ei ganiatáu.

— Yn yr amgylchiadau hyn, caiff y perchennog gyflwyno hysbysiad prynu i awdurdod cynllunio lleol yr ardal y lleolir y tir ynddi. Bydd yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod cynllunio lleol yn prynu buddiant y perchennog yn y tir, yn unol â darpariaethau Rhan VI o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. (Caiff awdurdod cynllunio lleol dderbyn yr hysbysiad a mynd ymlaen i gaffael y tir; neu wrthod yr hysbysiad ac os yw'n gwrthod, rhaid iddo atgyfeirio'r hysbysiad at Weinidogion Cymru.)

## [F8 ATODLEN 5A

Erthygl 24B(2)

**Diwygiadau Testunol**

**F8** Atod. 5A, Atod. 5B wedi ei fewnosod (16.3.2016) gan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/59), ergl. 1(2), **Atod. 3**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O APÊL O DAN ERTHYGLAU 10 A 25

(i'w gyflwyno i berchennog* neu denant** neu i'w gyhoeddi mewn papur newydd, (ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, ar wefan yr awdurdod))

Datblygiad arfaethedig yn (a).....................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b)......................................................................

ar ôl gwneud cais i Awdurdod Cynllunio Lleol (c)....................................................

ar gyfer (ch)...............................................................................................

yn apelio i Weinidogion Cymru

yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol +

yn dilyn methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi hysbysiad o benderfyniad +

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)..............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch yr apêl hon ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu ddefnyddio'r wefan yn www.planningportal.gov.uk/pcs

erbyn (dd)...............................................................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol sydd â'i dymor gweddilliol yn ddim llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys ennill neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (ac eithrio olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant amaethyddol, fel y diffinnir "agricultural tenant" yn adran 65(8) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o dir y mae unrhyw ran ohono'n gynwysedig yn y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Llofnodwyd................................................

+ Ar ran......................................

Dyddiad..................................................

*Datganiad o hawliau perchnogion*

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu gael gwared â'u heiddo onid oes rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn les.

*Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol*

Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol, gallai hynny effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r ceisydd

(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais

(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, neu 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (yn ôl fel y digwydd)

(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol

## ATODLEN 5B

Erthygl 24B(3)]

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 12(4) NEU (5) O GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

(i'w arddangos ar neu gerllaw'r safle, neu i'w gyflwyno i berchnogion a/neu feddianwyr tir cyffiniol; ac os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan, i'w gyhoeddi ar wefan yr awdurdod; a phan fo'n ofynnol, i'w gyhoeddi mewn papur newydd)

Datblygiad arfaethedig yn (a)......................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** (b)...............................................................

yn gwneud cais i Awdurdod Cynllunio Lleol (c)..............................................

am ganiatâd cynllunio i (ch)......................................................

Caiff aelodau'r cyhoedd archwilio copïau o'r canlynol:

— y cais

— y planiau

— a'r dogfennau eraill a gyflwynwyd ynghyd â'r cais

yn (d)................................……………………………………

yn ystod unrhyw oriau rhesymol hyd at (dd)...............................................

+ ac, ar-lein yn (e)…………………………..

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y cais hwn ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn (f)...............................................................................................

erbyn (dd)..........................................................................................

Llofnodwyd…………………………………………...(swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol)

Ar ran Awdurdod Cynllunio Lleol................................

Dyddiad....................................................

+ dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
(b) enw'r ceisydd
(c) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol
(ch) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
(d) cyfeiriad lle y gellir archwilio'r cais
(dd) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad arddangos yr hysbysiad am y tro cyntaf ar neu gerllaw'r safle neu y'i cyflwynir i berchennog a/neu feddiannydd tir cyffiniol, neu gyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd (yn ôl fel y digwydd)
(e) cyfeiriad gwefan (url) yr awdurdod cynllunio lleol
(f) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol

# ATODLEN 6

Erthygl 27

## Hysbysiad o dan Erthygl 27

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 6 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 27 O GYNNIG AR GYFER GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL SY'N RHOI CANIATÂD CYNLLUNIO

(i'w arddangos ar neu gerllaw'r safle y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac i'w gyflwyno i berchennog* neu denant**)

Datblygiad arfaethedig yn (a)..........................................................

**Rwyf yn hysbysu drwy hyn fod** Awdurdod Cynllunio Lleol (b)................................. yn bwriadu gwneud gorchymyn datblygu lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer (c)…… …………………

Mae copi o'r gorchymyn drafft ac o ddatganiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'i resymau dros wneud y gorchymyn ar gael i'w harchwilio yn……………………………………(ch)

ac wedi eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ………………………………..(d)

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â'r gorchymyn datblygu lleol arfaethedig hwn ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn (dd)…………………........................................

erbyn (e).......................................................................................

* ystyr "perchennog" yw person sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol sydd â'i dymor gweddilliol yn ddim llai na saith mlynedd, neu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys ennill neu weithio mwynau, person sydd â hawl i fuddiant mewn mwyn yn y tir (ac eithrio olew, nwy, glo, aur neu arian).

** ystyr "tenant" yw tenant amaethyddol, fel y diffinnir "agricultural tenant" yn adran 65(8) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o dir y mae unrhyw ran ohono'n gynwysedig yn y safle.

Llofnodwyd...............................................(swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol)

+ Ar ran Awdurdod Cynllunio Lleol......................................

Dyddiad..................................................

Datganiad o hawliau perchnogion

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn effeithio ar hawliau perchnogion i gadw neu gael gwared â'u heiddo onid oes rhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn cytundeb neu mewn les.

Datganiad o hawliau tenantiaid amaethyddol

Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad anamaethyddol, gallai hynny effeithio ar sicrwydd deiliadaeth tenantiaid amaethyddol.

---

Mewnosoder:

(a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig

(b) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(c) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

(ch) y mannau lle y mae'r dogfennau ar gael i'w harchwilio, a'r amseroedd

(d) cyfeiriad y wefan lle y cyhoeddir y dogfennau

(dd) cyfeiriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol

(e) dyddiad sy'n rhoi cyfnod o ddim llai na 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r [dyddiad yr arddangosir yr hysbysiad am y tro cyntaf ar y safle neu gerllaw'r safle, neu ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad (yn ôl fel y digwydd)].

## ATODLEN 7

Erthygl 28

### Tystysgrif o Gyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 7 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: Adrannau 191 a 192

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

TYSTYSGRIF CYFREITHLONDEB DEFNYDD NEU DDATBLYGIAD

Mae Awdurdod Cynllunio Lleol (a)........................................................................... drwy hyn yn ardystio bod y*/ y byddai'r*/ defnydd*/gweithrediadau*/mater* a ddisgrifir yn yr Atodlen Gyntaf i'r dystysgrif hon, mewn perthynas â'r tir a bennir yn yr Ail Atodlen i'r dystysgrif hon ac a ddangosir ag amlinell*/ â chroeslinellau*/ â lliw* (c)............................... ar y plan a atodir i'r dystysgrif hon, yn gyfreithlon ar (b)…………………………… o fewn ystyr adran 191 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, am y rheswm (rhesymau) canlynol:

............................................................................................................

............................................................................................................

Llofnod......................................................................(swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol)

Ar ran Awdurdod Cynllunio Lleol (a)……............................................................................

Dyddiad........................................................................................

Atodlen Gyntaf..............................................................................................................................(ch)

Ail Atodlen......................................................................................................................................(d)

Nodiadau

1 Dyroddir y dystysgrif hon, at ddibenion, yn unig, adran 191* / 192* o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2 Mae'n ardystio bod y*/ y byddai'r*, defnydd*/gweithrediadau*/mater* a bennir yn yr Atodlen Gyntaf, yn digwydd ar y tir a ddisgrifir yn yr Ail Atodlen, yn gyfreithlon ar y dyddiad a bennir, ac felly nad oedd*/ na fyddai]* /nad oeddent*/na fyddent* yn agored i gamau gorfodi o dan adran 172 o Ddeddf 1990 ar y dyddiad hwnnw.

3 Mae'r dystysgrif hon yn gymwys, yn unig, i hyd a lled y defnydd*/gweithrediadau*/mater* a ddisgrifir yn yr Atodlen Gyntaf, ac i'r tir a bennir yn yr Ail Atodlen ac a ddangosir ar y plan a atodir. Gallai unrhyw ddefnydd*/weithrediadau*/fater sy'n wahanol mewn modd perthnasol i'r defnydd*/gweithrediadau*/mater* a ddisgrifir, neu sy'n ymwneud â thir arall, beri bod y perchennog neu feddiannydd yn agored i gamau gorfodi.

*4 Goleddfir effaith y dystysgrif o dan adran 192 o Ddeddf 1990 (tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad arfaethedig) hefyd gan y profiso yn adran 192(4) o'r Ddeddf honno, sy'n datgan na cheir rhagdybio cyfreithlondeb y defnydd neu'r gweithrediadau a ddisgrifir yn derfynol ac eithrio pan nad oes unrhyw newid perthnasol wedi digwydd, cyn sefydlu'r defnydd neu ddechrau'r gweithrediadau, mewn unrhyw un o'r materion sy'n berthnasol i benderfynu'r cyfryw gyfreithlondeb.

*dilëer os nad yw'n briodol

---

Mewnosoder:

(a) enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(b) dyddiad y cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol

(c) y lliw a ddefnyddir yn y plan

(ch) disgrifiad llawn o'r defnydd, gweithrediadau neu fater arall, gan gyfeirio, pan fo angen, at fanylion yn y cais neu yn y planiau a gyflwynwyd, gan gynnwys cyfeiriad at y dosbarth o fathau o ddefnydd, os oes un, a bennir mewn gorchymyn o dan adran 55(2)(f) o Ddeddf 1990, y mae'r defnydd a ardystir yn perthyn iddo

(d) cyfeiriad neu leoliad y safle

## ATODLEN 8

Erthygl 33

## OFFERYNNAU STATUDOL A DDIRYMIIR

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 8 mewn grym ar 30.4.2012, gweler **ergl. 1(1)**

| *Enw'r Offeryn* | *Cyfeirnod* | *Graddau'r dirymiad* |
|---|---|---|
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995(**1**) | OS 1995/419 | Y Gorchymyn cyfan(**2**) |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Ffurflenni Cymraeg) 1995 | OS 1995/3336 | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 | OS 1995/2803 | Paragraff 21 o Atodlen 5 ac erthygl 18 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraff hwnnw |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) 1996(**3**) | OS 1996/1817 | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) 1996 | OS 1996/525 | Paragraff 20 o'r Atodlen ac erthygl 3 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraff hwnnw |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) 1997(**4**) | OS 1997/858 | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 | OS 2002/1877 (Cy.186) | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2004 | OS 2004/1434 (Cy.147) | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebiadau | OS 2004/3156 (Cy.273) | Erthygl 11 ac Atodlen 1 |

(**1**) Dirymwyd i'r graddau yr oedd yn gymwys i Loegr gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 2010 (O.S. 2010/2184).
(**2**) Gweler erthygl 33 am arbedion.
(**3**) Dirymwyd i'r graddau yr oedd yn gymwys i Loegr gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 2010 (O.S. 2010/2184).
(**4**) Dirymwyd i'r graddau yr oedd yn gymwys i Loegr gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 2010 (O.S. 2010/2184).

| *Enw'r Offeryn* | *Cyfeirnod* | *Graddau'r dirymiad* |
|---|---|---|
| Electronig) (Cymru) (Rhif 1) 2004 | | |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006 | OS 2006/3390 (Cy.310) | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol ac Addasiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006 | OS 2006/1386 (Cy.136) | Erthygl 4 |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2008 | OS 2008/2336 (Cy.199) | Y Gorchymyn cyfan |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2009 | OS 2009/1024 (Cy.87) | Y Gorchymyn cyfan |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. 1D inserted by S.I. 2020/514 Sch.
- Sch. 2 words substituted by S.I. 2017/544 reg. 54(2)
- Sch. 3 applied (with modifications) by S.I. 2017/567 reg. 18(5)
- Sch. 3 words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(14)(a)
- Sch. 3 words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(14)(b)
- Sch. 3 words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(14)(c)
- Sch. 3 words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(14)(d)
- Sch. 4 word omitted by S.I. 2021/1189 art. 2(3)(a)
- Sch. 4 Table words inserted by S.I. 2014/469 Sch. 3 para. 207(2)(a)
- Sch. 4 Table words inserted by S.I. 2014/469 Sch. 3 para. 207(2)(b)
- Sch. 4 Table words inserted by S.I. 2014/469 Sch. 3 para. 207(3)(b)
- Sch. 4 table words inserted by S.I. 2021/1189 art. 2(2)(b)
- Sch. 4 words inserted by S.I. 2021/1189 art. 2(3)(c)
- Sch. 4 Table words substituted by S.I. 2014/469 Sch. 3 para. 207(3)(a)
- Sch. 4 Table words substituted by S.I. 2019/456 reg. 4(a)
- Sch. 4 Table words substituted by S.I. 2019/456 reg. 4(b)
- Sch. 4 table words substituted by S.I. 2021/1189 art. 2(2)(a) (The amending provision S.I. 2021/1189, art. 2(2)(a) is omitted by virtue of S.I. 2021/1297, art. 2(3)(a) before it comes into force)
- Sch. 4 words substituted by S.I. 2021/1189 art. 2(3)(b) (The amending S.I. 2021/1189, art. 2(3)(b) is omitted by virtue of S.I. 2021/1297, art. 2(3)(b) before it comes into force)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/542 art. 3
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(i)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(ii)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(iii)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(iv)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(ix)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(v)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(vi)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(vii)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(viii)
- art. 2(1) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(b)(x)
- art. 2(1) words omitted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(2)(a)
- art. 2G inserted by S.I. 2020/514 art. 2(2)
- art. 2G(2)(b) words substituted by S.I. 2020/1004 art. 2(2)
- art. 2G(2)(b) words substituted by S.I. 2020/1516 art. 2(2)
- art. 10(4) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(3)
- art. 12 applied (with modifications) by S.I. 2017/567 reg. 18(5)
- art. 12(2) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(a)
- art. 12(2)(a) omitted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(b)
- art. 12(3A) inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(c)
- art. 12(4) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(d)
- art. 12(4A) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(e)
- art. 12(5) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(f)
- art. 12(6) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(g)
- art. 12(7) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(h)
- art. 12(7A) inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(4)(i)
- art. 13 substituted by S.I. 2017/542 art. 4
- art. 14(1) excluded by S.I. 2021/1189 art. 1(4)

- art. 14(4)(b) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(5)
- art. 15A(2) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(6)
- art. 15C words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(7)
- art. 16 words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(8)
- art. 16(4)(5) inserted by S.I. 2020/514 art. 3
- art. 18(2) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(9)
- art. 21(1)(a) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(10)(a)
- art. 21(1)(c) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(10)(b)
- art. 22 applied by S.I. 2017/330 Sch. 7 para. 4(2)
- art. 2223 modified by SI 2016/58 reg. 57(2) (as substituted) by S.I. 2016/971 reg. 2
- art. 22(6)(a) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(11)(a)
- art. 22(6)(c) words inserted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(11)(b)
- art. 24(2) omitted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(12)
- art. 26(1)(a) words inserted by S.I. 2017/542 art. 5(1)(b)
- art. 26(1)(a) words omitted by S.I. 2017/542 art. 5(1)(a)
- art. 26(1)(b) words inserted by S.I. 2017/542 art. 5(1)(c)
- art. 26(2) words substituted by S.I. 2017/542 art. 5(2)
- art. 26(4) substituted by S.I. 2017/542 art. 5(3)
- art. 26B inserted by S.I. 2017/542 art. 6
- art. 26C inserted by S.I. 2017/542 art. 7
- art. 27(5)(b) words substittued by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(13)(a)
- art. 27(6)(b)(iii) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(13)(b)
- art. 27(6)(c)(iii) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(13)(c)
- art. 27(7)(a) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(13)(d)
- art. 27(7)(c) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(13)(d)
- art. 27(13)(b) words substituted by S.I. 2017/567 Sch. 9 para. 1(13)(e)
- art. 30 applied (with modifications) by S.I. 2018/1182 art. 11

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

- Order modified by S.I. 2017/567 Sch. 8 para. 8(2)(a)

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 17(1)(b) words substituted by S.I. 2016/912 art. 20(2)
- reg. 17(1)(b) words substituted by S.I. 2016/912 art. 20(3) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. It applies to the Welsh text version only.)